Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Papur briffio ar gyfer y Cyfarfod Llawn

## Bil Diwygio Lles Senedd y DU

**Papur briffio**

| **Dyddiad y ddadl** | **24 Ionawr 2012** |
|---|---|

**Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.**

Gwasanaeth Ymchwil

## Cynnwys

**1. Y Cynnig** .......... **3**
**2. Y Bil Diwygio Lles** .......... **3**
Rhan 1 – Credyd cynhwysol .......... 3
Rhan 2 – Budd-daliadau oedran gweithio .......... 4
Rhan 3 – Budd-daliadau eraill .......... 4
Rhan 4 – Taliad Annibyniaeth Bersonol .......... 5
Rhan 5 – Nawdd cymdeithasol: cyffredinol .......... 5
Rhan 6 – Amrywiol .......... 5
Rhan 7 – Terfynol .......... 5
**3. Cwmpas Tiriogaethol** .......... **6**
**4. Lincs** .......... **8**
4.1. Dogfennau Allweddol .......... 8
4.2. Sefydliadau .......... 8
4.3. Erthyglau .......... 9

## 1. Y Cynnig

NDM4888

Gwenda Thomas (Castell Nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y Deyrnas Unedig ystyried y darpariaethau pellach y cyfeirir atynt yn y Bil Diwygio Lles sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NDM 4713, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Geirfa**

JSA – lwfans ceisio gwaith

ESA – lwfans cyflogaeth a chymorth

IS – cymhorthdal incwm

DWP – yr Adran Gwaith a Phensiynau

HMRC – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

## 2. Y Bil Diwygio Lles

Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ymgynghorol – *21st Century Welfare (Cm 7913)*. Yn y ddogfen hon amlinellwyd ystod o opsiynau ar gyfer diwygio'r system les. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, fis Tachwedd 2010, cyhoeddwyd Papur Gwyn yn dwyn y teitl *Universal Credit: welfare that works (Cm 7957)*, ochr yn ochr ag ymatebion y Llywodraeth i'r ymgynghoriad (*Consultation responses to 21st Century Welfare (Cm 7971*). Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio lles. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Lles yn y Senedd ar 16 Chwefror 2011.

Y prif gynnig ar gyfer diwygio lles yw cyflwyno budd-dal newydd, y bwriedir ei alw'n **gredyd cynhwysol**, a fydd yn disodli'r budd-daliadau presennol i bobl mewn gwaith a phobl ddi-waith. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer budd-dal newydd, sef **taliad annibyniaeth bersonol**, a fydd yn disodli'r lwfans byw i'r anabl presennol.

Mae'r prif newidiadau a gyflwynir gan y Bil fel a ganlyn:

- cyflwyno **Taliadau Annibyniaeth Bersonol i ddisodli'r Lwfans Byw i'r Anabl presennol;**
- **cyfyngu ar yr hawl i Fudd-dal Tai** i denantiaid tai cymdeithasol y mae eu llety yn **fwy na'r hyn sydd ei angen arnynt;**
- **uwchraddio** cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn unol â'r **Mynegai Prisiau Defnyddwyr;**
- diwygio'r **cynllun cynhaliaeth plant** statudol arfaethedig;
- cyfyngu taliadau **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol i gyfnod o 12 mis;**
- **capio cyfanswm y budd-daliadau** y gellir eu hawlio.

### *Rhan 1 – Credyd cynhwysol*

Mae'r Rhan hon o'r Bil yn cynnwys darpariaethau ac yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer budd-dal oedran gweithio integredig a gaiff ei alw'n gredyd cynhwysol a fydd, yn dibynnu ar amgylchiadau'r hawlydd, yn **cynnwys lwfans safonol (i gwmpasu costau byw**

**sylfaenol) ynghyd ag elfennau ychwanegol ar gyfer cyfrifoldeb dros blant neu bobl ifanc, costau tai ac anghenion penodol eraill**.

Bydd credyd cynhwysol yn cael ei dalu i bobl sydd mewn gwaith ac i bobl sy'n ddi-waith, a bydd yn disodli credyd treth gwaith, credyd treth plant, budd-dal y dreth gyngor, cymhorthdal incwm (IS), lwfans ceisio gwaith (JSA) sy'n seiliedig ar incwm a lwfans cyflogaeth a chymorth (ESA) sy'n seiliedig ar incwm. Bydd yn darparu cymorth i bobl rhwng 18 oed (neu iau mewn amgylchiadau penodol) a'r oed y bydd yr hawlydd yn dod yn gymwys i gael credyd pensiwn y wladwriaeth.

Caiff y cymorth ariannol a ddarperir gan gredyd cynhwysol ei seilio ar gyfrifoldebau y gall fod yn ofynnol i hawlwyr eu bodloni. Bydd maint y gofynion hynny'n dibynnu ar amgylchiadau penodol yr hawlydd.

### *Rhan 2 – Budd-daliadau oedran gweithio*

Mae'r Rhan hon o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau yng nghyfrifoldebau hawlwyr JSA, ESA ac IS yn ystod y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno credyd cynhwysol a diddymu JSA yn seiliedig ar incwm, ESA yn seiliedig ar incwm ac IS. Yn benodol gwneir darpariaeth ar gyfer cyflwyno ymrwymiad hawlydd. Cofnod o'r gofynion y disgwylir i hawlwyr eu bodloni er mwyn cael budd-dal llawn a'r canlyniadau os na fyddant yn gwneud hynny yw'r ymrwymiad hawlydd.

Ar ôl i'r cymalau credyd cynhwysol ddod i rym, bydd ESA a JSA yn parhau ochr yn ochr â chredyd cynhwysol fel budd-daliadau cyfrannol. Yn ogystal â'r newidiadau a wneir yn y cyfnod interim, mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno diwygiadau tymor hwy i gysoni ESA a JSA yn fwy â'r darpariaethau ar gyfer credyd cynhwysol. Mae *cymalau 49 a 56* yn cyflwyno adrannau newydd i *Ddeddf Ceisio Gwaith 1995* a *Deddf Diwygio Lles 2007* sy'n efelychu'r rhai ar gyfer credyd cynhwysol sy'n ymwneud â gofynion a sancsiynau sy'n gysylltiedig â gwaith, ac eithrio lle mae angen mân wahaniaethau, er mwyn sicrhau bod yr hyn y gellir ei ddisgwyl gan hawlydd JSA neu ESA cyfrannol yr un peth â'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan hawlydd credyd cynhwysol mewn sefyllfa debyg.

### *Rhan 3 – Budd-daliadau eraill*

Mae'r Rhan hon o'r Bil yn cynnwys newidiadau i nifer o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill.

Mae cymalau 33/34 yn caniatáu diddymu budd-daliadau yn cynnwys budd-dal y dreth gyngor (sy'n cael ei ddatganoli i awdurdodau lleol yn Lloegr  ac i Lywodraeth Cymru). Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd yng Nghymru. Bydd y newid yn digwydd fis Ebrill 2013.

### *Rhan 4 – Taliad Annibyniaeth Bersonol*

Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth, fel rhan o'r Gyllideb, ei bwriad i ddiwygio lwfans byw i'r anabl o 2013-14 ymlaen. Wedyn, ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddwyd papur ymgynghori *Disability Living Allowance reform (Cm 7984).* Yn y papur ymgynghori amlinellir cynigion y Llywodraeth i ddisodli lwfans byw i'r anabl gyda thaliad annibyniaeth bersonol. Mae'r darpariaethau yn Rhan 4 yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer y budd-dal newydd, a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn y broses o bennu manylion y budd-dal y gwneir darpariaethau ar ei gyfer mewn is-ddeddfwriaeth.

### *Rhan 5 – Nawdd cymdeithasol: cyffredinol*

17. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweinyddu budd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â chapio taliadau budd-dal; camau i ymdrin â thwyll budd-daliadau a chredyd treth a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i rannu data â chyrff eraill.

### *Rhan 6 – Amrywiol*

18. Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen ymgynghori S*trengthening families, promoting parental responsibility: the future of child maintenance (Cm 7990).* Yn y ddogfen amlinellwyd barn y Llywodraeth y dylid annog a chefnogi rhieni i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal eu plant, yn hytrach na defnyddio'r cynllun cynhaliaeth statudol. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn gwneud darpariaeth i weithredu'r cynigion hynny yn y ddogfen ymgynghori sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael deddfwriaeth sylfaenol.

Gwneir darpariaeth hefyd i ddiwygio *Deddf Ansolfedd 1986* er mwyn nodi y tu hwnt i amheuaeth nad yw ôl-ddyledion cynhaliaeth plant yn cael eu cynnwys yn y dyledion a allai gael eu cynnwys mewn trefniant gwirfoddol unigol.

### *Rhan 7 – Terfynol*

Mae Rhan 7 yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud â darpariaeth ariannol, cwmpas y Bil, darpariaeth cychwyn y Bil, a'r teitl byr.

Yn ystod y Cam Pwyllgor, diwygiodd y Llywodraeth y Bil er mwyn darparu ar gyfer sefydlu **Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant**.

Nid yw pob un o ddiwygiadau lles Llywdoraeth y DU yn cael eu gweithredu drwy'r Bil. Mae'r tabl isod yn egluro'r sefyllfa:

| Subject | Change required | Stage |
|---|---|---|
| Mortgage interest | Regulations | The Social Security (Housing Costs) (Standard Interest Rate) Amendment Regulations 2010 in force from 1.10.10 |
| Child Trust Fund /Health in Pregnancy Grant | Act of Parliament | The Savings Accounts and Health in Pregnancy Grant Bill Royal Assent received 16.12.10 |
| Child Benefit | Act of Parliament | Income tax legislation |
| Housing Benefit | Regulations | SI.No.2835/2010 and SI.No.2836/2010 laid 30.11.10 Coming into force 1.04.11 |
| Employment & Support Allowance | Act of Parliament | Welfare Reform Bill published 17 February 2011 |
| Disability Living Allowance | Act of Parliament | Welfare Reform Bill published 17 February 2011 |
| Tax Credits | Regulations | To be included in uprating legislation 2011 & 2012 |
| Lone Parents | | Budget document, 23 March 2011 |
| Universal Credit | Act of Parliament | Welfare Reform Bill published 17 February 2011 |

Ffynhonnell: Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant

## 3. Cwmpas Tiriogaethol

Bydd darpariaethau'r Bil yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban ac eithrio'r canlynol:

(a) mae'r darpariaethau canlynol yn cwmpasu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon:

- *cymal 33* (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac atodol: credyd cynhwysol);
- *cymal 34* (diddymu budd-daliadau);
- *cymal 89* (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ac atodol: taliad annibyniaeth bersonol);
- *cymalau 123(1) i (13)* (credydau treth: trosglwyddo swyddogaethau etc);
- *cymalau 124(1) i (9)* (rhannu gwybodaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a HMRC);
- *Rhan 7* (ec eithrio'r Rhestr diddymiadau); a

(b) bydd i ddiwygiadau a diddymiadau a wneir gan y Bil hwn yr un cwmpas â'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio neu ei diddymu.

Bydd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer darpariaethau'n ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau credyd treth (*cymalau 123(1) i (13)*), rhannu gwybodaeth rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a HMRC (*cymalau 124(1) i (9)*) a'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant (*cymal 136* ac *Atodlen 13*).

Yn gyffredinol, mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol i Gymru yn yr un ffordd ag y maent yn berthnasol i Loegr. Mae'r Bil yn cyflwyno darpariaethau sy'n caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru (ymysg cyrff eraill) rannu gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau lles sydd

o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac felly bydd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cynulliad er mwyn gwneud hynny.

Pasiwyd **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (NDM4713) (Saesneg yn unig) gan y Cynulliad** i'r perwyl hwn fis Mawrth 2011.

Hefyd mae darpariaethau lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer oherwydd maent yn effeithio ar eu swyddogaethau, sef:

- newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru o ganlyniad i gyflwyno credyd cynhwysol (*cymal 33)*;
- uno cynllun ar wahân i bobl sydd wedi cael eu hanafu pan oeddent dan hyfforddiant â'r prif Gynllun Budd-daliadau Anabledd Anafiadau Diwydiannol (*cymal 64*);
- newidiadau i ganiatáu lleoleiddio'r gronfa gymdeithasol (*cymal 69*[1]);
- darpariaeth yn ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant (*cymal 136 ac Atodlen 13)*.

Cyflwynwyd **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** (NDM8757) yn y Cynulliad ar 3 Ionawr 2012. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau atodol i'r *Bil Diwygio Lles* yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mai 2011. Mae'r gwelliannau hyn yn diwygio *Deddf Tlodi Plant 2010* ac yn ymwneud â newidiadau i rôl a chylch gwaith y Comisiwn Tlodi Plant, sydd hefyd yn golygu ei ailenwi yn "Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant".

Mae darpariaethau perthnasol y Bil fel a ganlyn:

Mae **Atodlen 13, paragraff 2 (yr adran newydd arfaethedig 8B)** yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn amlinellu ei farn am y cynnydd a wnaethpwyd tuag at y "nodau" yn adran 8B(2) **a'r camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â strategaeth Gymreig.** Mae darpariaethau'n ymwneud â "nodau" gwella symudedd cymdeithasol a lleihau tlodi plant o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Atodlen 7, pwnc 15, o ran eu perthnasedd i Gymru.

Mae paragraff 7 o'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn nodi:

> Ceir ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn ystyried cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Byddai'r gwelliannau hyn yn cael gwared ar y gofyniad i adroddiad blynyddol y Comisiwn gyflwyno safbwyntiau ar y cynnydd a wnaed i weithredu'r strategaethau datganoledig. Yn hytrach, yr unig beth y byddai gofyn i'r adroddiad ei wneud fyddai disgrifio'r camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac adrannau perthnasol Gogledd Iwerddon yn unol â'u priod strategaethau.

Mae **Atodlen 13, paragraff 2 (adran newydd arfaethedig 8C)** yn rhoi swyddogaeth i Weinidog y Goron gyfarwyddo'r Comisiwn i ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â'r "nodau" yn adran 8B(2).

Mae **Atodlen 13, paragraff 3 (atodlen 1 newydd arfaethedig**) yn amnewid Atodlen 1 *Deddf Tlodi Plant 2010* ac (ymysg pethau eraill) yn dileu'r swyddogaeth o ymgynghori â Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidog y Goron yn penodi unrhyw aelodau eraill o'r

---

[1] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ddisodli'r Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ar gyfer treuliau byw ar ôl i'r arian gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru fis Ebrill 2013.

Comisiwn. Cyn hyn, un o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol oedd hwn. Fodd bynnag roedd dyletswydd ar wyneb *Deddf Tlodi Plant 2010* i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penodi unrhyw aelod. Caiff pŵer newydd ei gynnwys hefyd i Weinidog y Goron benodi un o'r aelodau fel dirprwy gadeirydd. Nid yw'r pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelod o'r Comisiwn wedi newid.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn fel y cynhwysir yn y pwnc "Lles Cymdeithasol" (Diogelwch a lles plant gan gynnwys mabwysiadu a maethu, a gofal i oedolion ifanc, pobl sy'n agored i niwed a phobl hŷn), ym mhwnc 15 yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Nod y cymalau arfaethedig yw gwneud darpariaeth "mewn perthynas â Chymru" at ddiben o fewn adran 108(7) ac Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar 12 Ionawr 2012, ysgrifennodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc at y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am eglurhad am ddwy o'r darpariaethau yn y Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol. Cafwyd ymateb y Dirprwy Weinidog i'r llythyr ar 17 Ionawr a bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ymateb yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr.

## 4. Lincs

### *4.1. Dogfennau Allweddol*

Cynnydd Tŷ'r Cyffredin ar y **Bil Diwygio Lles,** sy'n cynnwys lincs i'r trafodaethau.

**Cyfres o Hysbysiadau Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil ar Lles yng Nghymru**

Papur Ymchwil Tŷ'r Cyffredin 11/24 ***Welfare Reform Bill: Universal Credit provisions***

Papur Ymchwil Tŷ'r Cyffredin 11/23 ***Welfare Reform Bill: reform of disability benefits, Housing Benefit, and other measures***

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: *y Bil Diwygio Lles* (NDM4714) (Saesneg yn unig), Mawrth 2011**

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (NDM8757), Ionawr 2012**

**Datganiad Ysgrifenedig gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau: *Diwygio Lles*, 9 Ionawr 2012**

### *4.2. Sefydliadau*

Mae llawer o sefydliadau wedi bod yn monitro cynnydd y Bil. Dyma lincs at bapurau rhai ohonynt (yn Saesneg yn unig):

**Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (Ionawr 2012)**

**Shelter (Rhagfyr 2011)**

**Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (Ebrill 2011)**

**Turn2Us**

**Disability Alliance**

Sefydliad Joseph Rowntree

Kinship Care Alliance

### 4.3. Erthyglau

Guardian Society

Cylchgrawn *Public Finance*, tudalennau ar les

Politics.co.uk, tudalen ar y Bil Diwygio Lles

Neil Hannon (Cyfarwyddwr y felin drafod Policy Exchange) *It is right to reform disability allowance, (*ac erthyglau cysylltiedig eraill) Telegraph 17 Ionawr 2012

Y Sefydliad Materion Economaidd, tudalen we ar les